Offer Meddwl

Mike Fleetham's Thinking Classroom — Everyone is intelligent. Everyone is valuable. Everyone succeeds

Ebrill 2008

## Meddwl yn y Bocs

- **Yn datblygu gwybodaeth, meddwl gweledol, datrys problemau, meddwl haniaethol**
- **Sesiwn ddechrau, grŵp llawn, gweithgareddau mewn grwpiau bach**

## Sut

Mae meddwl y tu allan i'r bocs yn ddelwedd ar gyfer meddwl arloesol, creadigol sy'n torri'r rheolau. Yn rhyfedd iawn, mae Meddwl yn y Bocs yn eithaf tebyg. Mae'n herio disgyblion i wneud cysylltiadau newydd a haniaethol rhwng syniadau a dewis o siapiau gan roi cyfle iddyn nhw ehangu eu ffordd o feddwl am gynnwys pynciau mewn modd creadigol.

PARATOI:

1. Gwnewch gopi o'r daflen siapiau isod – un i bob grŵp/pâr/unigolyn

GWEITHGAREDD: (Gweler isod sut i ddefnyddio'r gweithgaredd mewn pynciau ac enghraifft)

2. Gofynnwch i ddysgwyr awgrymu pethau/syniadau sy'n ymwneud â nod/pwnc y wers
3. Cofnodwch y rhestr ac ychwanegwch eich un chi. Rhannwch daflenni siapiau.
4. Gofynnwch i ddysgwyr baru pob siâp ar y daflen gydag un syniad o'r rhestr (diriaethol neu haniaethol)
5. Gofynnwch iddyn nhw gyfiawnhau eu dewis

TRAFOD:

6. *Pa siapiau oedd hawsaf i'w paru a pham? Pa siapiau oedd anoddaf i'w paru a pham?*
7. *Sut allech chi ddefnyddio'r gweithgaredd hwn mewn pwnc gwahanol? Pa siapiau newydd allech chi roi cynnig arnyn nhw?*

## Estyniad ar gyfer meddylwyr hŷn/profiadol

- **Defnyddiwch siapiau cymhleth. Dywedwch pam y gellir paru syniad gyda 2 neu ragor o siapiau gwahanol**
- **Ceisiwch greu eich taflen siapiau a'ch gweithgaredd eich hun. Canolbwyntiwch ar yr haniaethol yn hytrach na'r diriaethol**

## Cymorth ar gyfer meddylwyr iau/sy'n datblygu

- Defnyddiwch siapiau syml/pethau hawdd i'w hadnabod. Sylwch ar siapiau yn y dosbarth/y tu allan
- Rhowch ddewis o ddau wrthrych ac un siâp – pa un o'r pethau sy'n ffitio orau a pham?

© 2008 Mike Fleetham. Free use granted on conditions: **Always acknowledge source and quote www.thinkingclassroom.co.uk**

## Ffitiwch y siapiau i…

- **Mathemateg:** …cyfuniadau o siapiau eraill; datrysiadau; ystod o rifau
- **Iaith:** …cynllun stori; geiriau; awduron
- **Gwyddoniaeth:** …grymoedd; deunyddiau; anifeiliaid
- **Daearyddiaeth:** …nodweddion daearegol; nodweddion map; ffyrdd
- **Hanes:** …arteffactau; digwyddiadau; perthnasau rhwng digwyddiadau
- **Cerdd:** …seiniau, offerynnau, grwpiau o gerddorion
- **Celf:** …manylion mewn darlun; arddulliau artistig; cyfryngau
- **Addysg Gorfforol:** …tactegau; cyrtiau/meysydd/caeau; cyfarpar
- **ABCh/Add Gref:** …teimladau; symbolau crefyddol; agweddau ar berthynas
- **DaTh:** …cynnyrch; offer; prosesau
- **L2L:** …targedau personol; nodweddion arddulliau dysgu; cryfderau
- **ITM:** ...agweddau ar ramadeg; nodweddion y wlad [cyflwynwch y gweithgaredd yn ITM]
- **Dysgu Awyr Agored:** …nodweddion yn yr amgylchedd; ffyrdd; cynlluniau
- **Llais Myfyrwyr:** …pynciau; targedau; problemau
- **Llais Rhieni:** …teimladau am ysgol; mathau o gymorth; agwedd plant
- **Llais Busnes:** …gwahanol farchnadoedd; gweithwyr; cynnyrch; cysylltiadau ysgol

## Nodiadau a Syniadau

© 2008 Mike Fleetham. Free use granted on conditions: **Always acknowledge source and quote www.thinkingclassroom.co.uk**

Yn yr enghraifft hon rydyn ni'n dechrau gyda rhestr o deimladau/hwyliau o wers ABCh:
**dicter, gobaith, cenfigen, caredigrwydd, syndod, tristwch, llawenydd, ofn, atgasedd, chwilfrydedd, rhyfeddod, gwylltineb, hapusrwydd, lludded, poen, cariad, pryder, ansicrwydd, gorfoledd, siriol, dagreuol, calon-drom, heddwch**
Byddwn wedyn yn ceisio paru pob siâp gyda theimlad/hwyl (gan roi rhesymau). Gwahaniaethwch gyda'r awgrymiadau uchod.

**Lludded** – oherwydd mae fel y fricsen **calon-drom** gyda mwy o bwysau

**Chwilfrydedd -** am ei fod yn mynd i lefydd na ddylai fynd iddyn nhw

**Syndod** – am ei fod fel ffrwydrad

**Calon-drom** – am ei fod fel bricsen

**Heddwch** – am ei fod yn siâp llyfn

**Cenfigen** – am ei fod yn sgwâr sy'n ceisio bod yn fwy ac yn well

**Gobaith** – am ei fod yn pwyntio tuag at yr awyr

**Ansicrwydd** – am nad yw'r siâp yn teimlo'n iawn

© 2008 Mike Fleetham. Free use granted on conditions: **Always acknowledge source and quote www.thinkingclassroom.co.uk**

**Rhestr:**















© 2008 Mike Fleetham. Free use granted on conditions: **Always acknowledge source and quote www.thinkingclassroom.co.uk**